

O'm Mhrofiad i – Iwan Williams, Sut i lunio cais celfyddydol llwyddiannus

Rydym dros y misoedd nesaf yn rhannu cyfres o erthyglau cryno yn trafod meysydd penodol, yn dwyn yr enw 'O'm Mhrofiad i!' Bwriad yr erthyglau hyn yw rhannu arbenigedd ac arfer da.

Iwan Williams, a weithiodd fel Swyddog Datblygu i Mentrau Iaith Cymru sy'n rhannu ei brofiadau ar sut i lunio cais celfyddydol llwyddiannus.



Be mae Iwan Glyn yn gwybod am geisiadau celfyddydol medda chi?

Dwi di bod yn gweithio yn y sector celfyddydol ers dros 15 mlynedd, ochr yn ochr â fy swydd efo MIC, ac yn y cyfnod hwn wedi bod yn rhan o brosiectau sydd wedi codi arian sylweddol o ffynnonellau amrywiol yn cynnwys grantiau bach a mawr. Dwi hefyd wedi eistedd ar fyrddau sydd yn dyfarnu arian, felly wedi cael cipolwg ar sut mae panel yn dod i benderfyniadau hefyd.

Isod mae rhai top tips o be dwi wedi ddysgu wrth wneud ceisiadau dros y blynyddoedd.

Nid yw hwn ddim yn rhestr gynhwysfawr - mae digonedd o wybodaeth ar gael ar-lein sy'n trafod manylion sut i wneud cais llwyddiannus, ac yn aml mae'r ariannwyr yn paratoi gwybodaeth fanwl am beth mae nhw'n dymuno ei ariannu a sut i lwyddo, felly dim ond ychydig o syniadau sydd isod yn seiliedig ar fy mhrofiad i yn y maes.

1. Angen

Mae'n dda o beth os ydych chi eisiau gwneud y prosiect ta beth, a ddim yn ei wneud oherwydd fod 'na botyn grant o gwmpas. Mae'r bobl sydd yn eistedd ar y panel yn gallu ogleuo cais sydd wedi'i greu oherwydd fod 'na gyfle am arian o rywle.

2. Ymchwil

Darllenwch bob darn o wybodaeth am y grant cyn dechrau ysgrifennu unrhyw beth. Y ffurflen gais, y nodiadau, gwybodaeth ar eu gwefan - popeth. Edrychwch ar brosiectau sydd wedi llwyddo i ddenu arian ganddyn nhw yn y gorffennol. Darllenwch ddwywaith neu dair os oes angen. Mae'n hynod bwysig eich bod yn wirioneddol deall pa fath o brosiectau y mae ariannwyr yn dymuno eu hariannu.

Mae modd rhoi galwad i drafod eich prosiect cyn i chi wneud cais. Rwyf yn awgrymu yn gryf i wneud hyn - mae'n arbed llawer iawn o amser yn hwyrach ymlaen.

3. Cymhwysedd – Ydych chi'n gymwys i wneud cais?

Wedi'r holl ddarllen fyddwch chi, gobeithio, wedi darganfod os ydych chi'n gymwys i wneud cais nai peidio! Os ddim, oes sefydliad arall y mae modd i chi gydweithio â nhw i wneud cais ar gyfer y prosiect?

4. Dadansoddi

Fel arfer mae'r arianwr yn cynnig llawer iawn o wybodaeth (weithiau gormod) ac felly mae angen blaenoriaethu. Ar ôl darllen y ffurflen gais a nodiadau ayb, mae'n amser dadansoddi ac adnabod beth sydd yn bwysig i'r arianwr. Dull dwi'n ei ddefnyddio yw uwchleuo testun pwysig yr ydw i eisiau cynnwys gwybodaeth amdano yn fy nghais. Yna wrth i mi sgwennu'r cais dwi'n dileu y 'testun pwysig', yna dwi'n gwybod mod i wedi cynnwys popeth yn y cais 😊

Weithiau mae arianwr yn datgan sut mae nhw'n bwrw ati i sgorio'r ceisiadau, sydd yn gwneud y broses yn llawer haws.

5. Y Syniad

Mae angen bod yn greadigol gyda'ch syniadau! Bellach, tydi gweithgaredd celf yn ei hun ddim yn ddigon i ddenu arian, ac mae angen i'r prosiect ei hun fod yn arloesol ac unigryw. Fel arfer, gyda cheisiadau at sefydliadau fel Cyngor Celfyddydau Cymru, y mwyaf wacky yw'r syniad, y mwyaf tebygol ydych chi o dderbyn arian grant.

6. Partneriaid

Mae pawb yn hoffi gweld sefydliadau yn cydweithio, felly dewch i adnabod sefydliadau sydd yn trefnu digwyddiadau celfyddydol yn eich ardal. Mae pawb yn chwilio am bartneriaid a chyfleoedd newydd, felly y mwyaf o bobl sydd yn gwybod amdanoch chi y gorau oll. Rhwydweithiwch, ac nid dim ond pan ydych chi eisiau ffeindio partner.

7. Ansawdd

Anelwch am y safon uchaf posib ym mhopeth rydych chi'n ei wneud. Treuliwch amser yn ysgrifennu'r cais gorau allwch chi, ffeindio'r parnter gorau ar gyfer y prosiect, yr artistiaid gorau. Ewch tu hwnt i Gymru i ddod o hyd i esiamplau o arfer da, a'u defnyddio yn eich cais os yn briodol. Dylwch anelu i'ch prosiect celfyddydol chi fedru sefyll ochr yn ochr â digwyddiadau gorau o Buenos Aires, Tokyo, Sydney, Llundain - pobman yn y byd. Mae Cymru yn haeddu cael y prosiectau celf o'r ansawdd uchaf hefyd.

8. Cynnwys

Mae angen tanio dychymyg y panel, a dod â'ch syniad yn fyw iddyn nhw. Byddwch yn greadigol wrth i chi ysgrifennu, cynnwys lluniau, dolenni at wefannau o brosiectau tebyg, neu sydd wedi ysbrydoli, artistiaid rydych chi'n dymuno gweithio â nhw.

Gofynnwch i rywun sydd yn gwybod dim am y prosiect i ddarllen y cais a chynnig adborth.

9. Tu hwnt i'r prosiect

Mae ariannwyr yn hoffi gweld rhywbeth yn parhau tu hwnt i oes y prosiect. Meddyliwch am beth all hyn fod wrth i chi feddwl am y syniad, yn hytrach na meddwl amdano ar y funud olaf.

10. Llythyrau Cefnogaeth

Mae cynnwys llythyrau cefnogaeth yn hanfodol bwysig, yr un mor bwysig â'r llythyr cais ei hun...os ydy'r arianwr yn adnabod y sefydliad, mae gwerth y llythyr lawer yn fwy.

Gweler pwynt 6 am ddatblygu partneriaethau.

Gobeithio fod y 10 pwynt uchod yn cynnig rhyw arweiniad ichi ond mae cymaint allwn ni yn y mentrau ei wneud i helpu'n gilydd hefyd, trwy:

- Rannu ceisiadau llwyddiannus gyda'ch gilydd - gweler 2 gais llwyddiannus i Cyngor Celfyddydau Cymru ar [y fewnwyd](#), ar gyfer Sbectol Iaith a Lein Iaith.
- Mynychu gweithgareddau celf eich gilydd i ddysgu a deall beth yw'r prosiectau
- Darllen ceisiadau ein gilydd a chynnig adborth

Cynlluniau grant posib

Dwi ddim am ddechrau rhestru, ond y lle amlwg i ddechrau yw Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae sawl pot o arian ar gael ganddyn nhw yn ddibynnol ar gynnwys, a maint y cais. Mae'r manylion i gyd ar eu [gwefan](#).

Pob hwyl gyda'r ceisiadau, edrych ymlaen i weld ffrwyth eich llafur.